

Y TYYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 47 Tachwedd 24, 2022 50c.

Ysgol Sul Pencae, Llanarth, Ceredigion

Cynhaliwyd cwrdd Diolchgarwch ysgol Sul Capel Pencae, Llanarth ar fore Sul y 18 Medi gyda Mrs Enid Jones wrth y llyw a Mrs Elin Morgan wrth yr organ. Yn naturiol, y thema oedd 'Diolch'. Braf oedd gweld y sêd fawr yn llawn o blant a phobl ifanc yr ysgol Sul a gymerodd ran yn y gwasanaeth, gyda graen.

Cyflwynwyd tystysgrif teilyngdod i bob un ohonynt am eu presenoldeb cyson yn yr ysgol Sul yn ystod y flwyddyn a fu. Isaac Rees dderbyniodd darian Debbie am yr un a fynychodd yr ysgol Sul yn fwyaf rheolaidd dros y cyfnod. Yn wir, ni cholodd yr un ysgol Sul llynedd a dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol iddo dderbyn y darian. Da iawn ti Isaac. Yn dilyn y casgliad o roddion ariannol a nwyddau a wnaethpwyd yn y cwrdd diolchgarwch, cyflwynwyd amrywiaeth o fwydydd a nwyddau angenrheidiol yn ogystal â sic o £85 i fanc bwyd Aberaeron.



Isaac Rees â Tharian Debbie yn rhoddedig i'r un fynychodd yr ysgol Sul yn fwyaf rheolaidd llynedd



Plant a phobl ifanc ysgol Sul Pencae yn y cwrdd diolchgarwch



Lydia, Elen, Isaac a Mrs Enid Jones yn cyflwyno sic a nwyddau i Fanc Bwyd Aberaeron

Sul Sbesial

Dyma luniau ar gof a chadw o ddydd hyfryd a bendithiol iawn a fu yng Ngwersyllt yr Urdd, Llangrannog ar 25 Medi. Daeth pawb at ei gilydd i brif neuadd Gwersyllt yr Urdd, Llangrannog. Llywyddwyd y cyfarfod gan gadeirydd cwrdd chwarter Cyfundeb Ceredigion, y Parchedig Carys Ann. Yn gwasanaethu wrth yr organ oedd Rhian Evans, Glynarthen ac Euros Lewis, Felinfach fu'n annerch y dyrfa. Diolchwn yn fawr iawn am gymorth a chefnogaeth barod holl ysgolion Sul y cyfundeb, y disgyblion a'u hathrawon, teuluoedd a ffrindiau. Gwerthfawrogir yn fawr iawn y cymorth ariannol a dderbyniwyd trwy grant gan Is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd a Chyfundeb Ceredigion (trwy garedigrwydd, dymuniad a charedigrwydd cyfreithiol capel Tywyn, Ceinewydd)

Os Duw a'i myn, edrychwn ymlaen at eich gweld eto yn y Sul Sbesial fydd ar Sul olaf Medi 2023 sef 24 Medi.

Karine Davies a Carys Ann



mwy o lluniau ar y dudalen gefn

CYDNABOD CYN HEDDWAS YN BREGETHWYR CYNORTHWYOL



Dyma Catrin Isaac Thomas yn derbyn Tystysgrif Pregethwr Cynorthwyol Cydnabyddedig gan Gethin Thomas, cadeirydd Cyfundeb Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog, yn eu cwrdd chwarter yng nghapel Gellimanwydd, Rhydaman ar y 9 Tachwedd. Mae Catrin, oedd gynt yn rhingyll yn Heddlu Dyfed-Powys, yn byw yn Sir Benfro, ond yn aelod yn eglwys Bethesda'r Tymbl. Hefyd yn y llun mae ei gweinidog, y Parchg Gwyn Elfyn Jones a Peter Harries, Ysgrifennydd y Cyfundeb. Dymunwn bob bendith i Catrin gyda'r gwaith o gyhoeddi'r Efenfyl.

Cyfiawnder hinsawdd

Rwy'n ysgrifennu'r ychydig eiriau hyn ar ôl treulio tridiau ym mhencadlys Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC) yn Hanover,



yr Almaen. Yno, bûm yn cydweithio gyda Philip Peacock, sydd â gofal am weithgarwch tystiolaeth a chyfiawnder y Cymundeb; fy nghyfaill Hong Jung Lee o Eglwys Bresbyteriaidd Corea, sy'n gyd-aelod gyda mi ar bwyllgor gweinyddol y Cymundeb; Lalrindiki Ralte, yn wreiddiol o Misoram, ac sy'n academydd yng ngholeg diwinyddol Aizawl, India; Jenne Jessica Revanda Pieter sy'n arbenigwr ar faterion yn ymwneud â phoblogaethau brodorol ac yn hanu o ranbarth Maluku o Ddwyrain Indonesia; ynghyd â swyddog cyfiawnder ecoleg ac economeg Cyngor Eglwysi'r Byd, Athena Peralta, a Damon Mkandawire, swyddog ecoleg ac economeg Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM).

Rhaglen waith

Cyfarfod oeddem i lunio rhaglen waith i'r Cymundeb, yn ymestyn dros y degawd nesaf, yn canolbwyntio ar thema Cyfiawnder Hinsawdd. Bu'r trafod yn ddwys a dyrys. Er ein bod yn weddol hyddysg mewn materion ecolegol, roedd deall materion yn ymwneud ac economeg

gwledydd a chyfandiroedd, a dylanwad neo-ryddfrydiaeth fel model o gyfalafiaeth farchnad sy'n ffafrio lleihau gwariant llywodraethol, dadreoleiddio, globaleiddio, masnach rydd a phreifateiddio yn dipyn o her! Bydd aelodau Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn gyfarwydd iawn â thrafodaethau o'r fath o'u hymwneud a gweithgarwch CWM ar y Bensaerniaeth Gyllidol ac Economaidd Ryngwladol Newydd (NIFEA).

Argyfyngau

Dysgais lawer o'n trafodaethau. Gwyddom yng Nghymru am oblygiadau newid hinsawdd a'r hyn all ddigwydd wrth i lefelau'r môr godi. Roedd clywed Jenne'n sôn am yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn Indonesia gyda brodorion yn gorfod symud o'u cartrefi wrth i'r tir ddfllannu o dan y tonnau yn rhoi cydestun cwbl wahanol i ni. Gwyddom yn ein gwlad ein hunain am y cwestiynau a godir ynglŷn â dyfodol ein diwydiant amaeth wrth i'r tymheredd godi. Mater gwahanol iawn oedd clywed Damon ac Athena yn sôn am yr hyn sy'n digwydd yn Zambia ac Ynysoedd y Philipinos wrth i newid hinsawdd gynyddu cyfraddau afiechydon a heintiau, yn arbennig felly ymysg plant, ac wrth fod y dynion yn gorfod treulio mwy o amser oddi cartref yn chwilio a hela am fwyd, mae'r pwysau

gwaith a gofal ar ferched a gwragedd yn cynyddu'n aruthrol.

Cyfiawnder hinsawdd

Materion o'r fath a ddaw o dan ymbarél cyfiawnder hinsawdd; dadl foesol a ganolbwyntia ar ddwy agwedd. Yn gyntaf, mae'n ein gorfodi i ddeall yr heriau a wynebir gan y bobl a'r cymunedau hynny sydd fwyaf agored i effeithiau newid hinsawdd. Yn aml, y bobl ar reng flaen effeithiau newid hinsawdd sydd wedi cyfrannu lleiaf at achosion yr argyfwng hinsawdd. Mae hwn yn anghyfiawnder na ellir ond ei unioni trwy weithredu cyflym ac uchelgeisiol ar yr hinsawdd, gan gynnwys lleihau allyriadau i sero cyn gynted â phosibl.

Mae cyfiawnder hinsawdd hefyd yn llywio sut y dylem weithredu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd. Rhaid inni sicrhau bod y newid i economi di-garbon yn gyfiawn a'i fod yn galluogi pawb i wireddu eu hawl i ddatblygiad. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gymuned fyd-eang weithredu mewn undod a sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i alluogi pob gwlad a pherson i drosglwyddo i ynni glân, adnewyddadwy ar yr un amserlen.

Llwyddwyd mewn tridiau i greu rhaglen waith! Bwriad y Cymundeb yw lansio'r rhaglen gogyfer ag Awr y Ddaear ar 25 Mawrth 2023. Cyn hynny, y gobaith yw ennyn cefnogaeth y 233 o eglwysi ac undebau, mewn 105 gwlad, sy'n aelodau o'r Cymundeb i'r rhaglen, ynghyd â magu ymroddiad i wrando ar y Ddaear (Job 12: 7-12), a thystiolaethu dros gyfiawnder.

GAIR AM AIR

Myfyrdod gan Owain Llŷr, Caerdydd

Perthyn i bob iaith eiriau na ellid yn llawn a llwyr eu cyfieithu i iaith arall. Mae'r gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin ag ambell un o'r geiriau rheini. Daw testun ein sylw heddiw o'r Almaeneg: *waldeinsamkeit*. Golyga'n fras yr ymdeimlad o fod ar ben dy hun mewn coedwig; unigedd llonydd nad yw o reidrwydd yn fygythiol.


Awn i'r afael ag arwyddocâd *waldeinsamkeit* trwy gyfrwng y gerdd hon gan Robert Frost (1874-1963) 'Stopping by Woods on a Snowy Evening' (1923):

*Whose woods these are I think I know.
His house is in the village though;
He will not see me stopping here
To watch his woods fill up with snow.
My little horse must think it queer
To stop without a farmhouse near
Between the woods and frozen lake*

*The darkest evening of the year.
He gives his harness bells a shake
To ask if there is some mistake.
The only other sound's the sweep
Of easy winds and downy flake.
The woods are lovely dark and deep.
But I have promises to keep,
And miles to go before I sleep,
And miles to go before I sleep.*

Mae'r gerdd yn un fer.

Mae testun y gerdd yn gyffredin ddigon: noson dywyll, coed ag eira ar lawr. Wrth ddarllen y gerdd, gwelwn nad byr mohoni ond cynnil, ac mae rhywbeth mawr yn cael ei ddweud. Sylwch ar deitl y gerdd: 'Stopping by Woods on a Snowy Evening'. Mae'r bardd ar ei ffordd i rywle. Arhosodd i wylïo'r 'woods fill up with snow'. O ble ddaeth y bardd, ac i ble



mae e'n mynd? Pam aros fan hyn?

Mae llonyddwch *waldeinsamkeit* yn pwyso'n drwm ar y gerdd; eira'n gorwedd yn drwch, y byd wedi fferru i gyd; 'the darkest evening of the year' yw hi. Coedwig wag. Noson dawel, clustfeiniwch am sibrdw 'easy winds and downy flake'. Mae'r bardd ar ei ben ei hun, ac yn falch o gael bod felly: *waldeinsamkeit*. Arhosodd fan hyn, ymhell o afael pawb a phopeth. Mae'r eira'n wedi troi'r goedwig yn Gaer Gwydion – dyma natur yn brydferth a swynol.

'The woods are lovely, dark and deep.' Mae'r bardd yn dal munud neu ddwy o lonyddwch yng nghanol ei brysurdeb: *waldeinsamkeit*. Gellid deall a gwerthfawrogi 'Stopping by Woods on a Snowy Evening' gan fod prydferthwch byd a rhyfeddod bywyd wedi cydio ym mhawb ohonom rywbyrd, rywysut, gan beri i ni oedi ar ein taith, ac anghofio – am ennyd – yr holl bethau sydd yn gwasgu ar ein hamser.

parhad ar dudalen 6

Yr Adran Gydenwadol

Croesawu gwesteion arbennig i Drefeca

Peidiwch ag anghofio lletygarwch, oherwydd trwyddo y mae rhai, heb wybod hynny, wedi rhoi llety i angylion. (Hebreaid 13:2)

Ar 24 Chwefror eleni, gwyliai'r byd wrth i Rwsia symud i oresgyn Wcráin gan achosi'r argyfwng ffoaduriaid mwyaf ers yr Ail Ryfel Byd. Erbyn mis Mai, credid bod 8 miliwn o bobl wedi cael eu gorfodi o'u cartrefi.

Dair wythnos yn ddiweddarach, roedd llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi sefydlu cynllun 'Homes for Ukraine', ac o fewn pythefnos roedd 200,000 o bobl wedi arwyddo'u bod yn barod i groesawu ffoaduriaid i'w cartrefi.

Yr un pryd, roedd swyddogion Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn siarad â Llywodraeth Cymru ynglŷn â defnyddio Coleg Trefeca fel Canolfan Argyfwng. Wedi cryn drafod, cytunwyd ar y cynllun, a chawsom 24 awr i baratoi ar gyfer croesawu hyd at 28 o unigolion o Wcráin o ddydd Iau, 17 Mawrth. Roedd rhywfaint o gyfrinachedd ynghylch â'r prosiect cyfan er mwyn amddiffyn y ganolfan a'r rhai a ddeuai iddi. Roedd hyn er mwyn sicrhau diogelwch ein hymwelwyr, ac i ufuddhau i'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ofyn inni fel canolfan.

Yn wreiddiol, yn y 18fed ganrif, yr oedd 'Teulu Trefeca' yn gymuned o bobl o wahanol ardaloedd â sgiliau amrywiol a ddaeth ynghyd i gartref Howel Harris, y diwygiwr Methodistiaid. Hyfforddwyd rhai ohonynt i gynorthwyo Harris yn y gwaith o efengylu i bobl Cymru. Yn y 1840au daeth 'teulu' gwahanol i fyw i Drefeca pan gafodd y lle ei droi'n goleg paratoi i fyfyrwyr gyda ffocws ar y weinidogaeth Gristnogol, newid a fyddai'n parhau â phrif waith Howel Harris, sef cyflwyno'r Crist byw i bobl Cymru. Yn ddiweddarach, bu'n ganolfan hyfforddiant ar gyfer lleygwyr ac yn fan delfrydol ar gyfer encil a myfyrdod. A bellach, yn 2022, roedd Canolfan Trefeca yn paratoi i groesawu 'teulu' arall i ddod yno i aros.




Llun: AdobeStock

Bu llawer o brysurdeb yn yr amser byr a gafwyd i sefydlu'r Ganolfan Groeso: prynu bwyd a manion eraill fel arwydd o'n croeso, hyd yn oed dillad gwely a thywelion! Dechreuodd y cyfarfodydd diddiwedd gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys ac asiantaethau eraill a fyddai yno hefyd yn gwneud eu rhan hwythau yn y gwaith o groesawu'r teulu newydd. Doedd gennym ni ddim syniad pwy fyddai'n dod yno: dynion, merched, plant, hen neu ifanc? Doedd gennym ni ddim syniad beth fyddai eu hanghenion wrth gyrraedd chwaith. Fe'i gwnaed yn glir ar ddechrau'r trafodaethau mai ein prif ddyletswydd fyddai cynnig llety a bwyd, ac y byddai'r holl anghenion eraill yn cael eu diwallu gan Gyngor Sir Powys. Yn wyrthiol, o'n hochr ni, roedd popeth yn barod i groesawu'r ymwelwyr am hanner nos y noson ganlynol, a'r cyfan oedd ar ôl i'w wneud oedd aros.

Fe arhoson ni ryw 5-6 wythnos yn y diwedd ac roedd yn teimlo fel oes, a dweud y lleiaf. Yna, cyrhaeddodd ein hymwelwyr cyntaf, dau frawd canol oed, ac o fewn wythnos daeth mwy o ymwelwyr, yn ddynion, merched, yn hen ac ifanc, ac o fewn dim o dro roedd y Ganolfan yn llawn.

Trefnodd Cyngor Powys wiriadau meddygol, cymorth gyda chyfrifon banc a budd-daliadau, gwersi iaith dyddiol, ac yn y pen draw, gartrefi mwy parhaol. Fodd bynnag, roedd angen cydgysylltu'r holl apwyntiadau hyn, a threfnu cludiant iddynt yn aml. Roedd Mair Jones a Richard Castle (Rheolwr a Chynorthwydd y Ganolfan) yn gyson ar alwad 24/7 am y chwe mis hynny, gan mai nhw oedd yn byw ac yn gweithio yn y ganolfan. Fe roddodd bws mini Canolfan Coleg y Bala gyfleoedd i'n gwesteion fwynhau'r ardal gyfagos a dysgu rhywbeth am y rhan hyfryd hon o Gymru. Fe wnaeth tîm Trefeca waith aruthrol, ac rydym ni fel enwad yn gwbl ddyledus iddynt am yr hyn a wnaethant yn ein henw.



Llun: AdobeStock

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Croesawu gwesteion arbennig i Drefeca

(parhad o dudalen 1)

Mae'r Parchg Jenny Garrard, un o ymddiriedolwyr y Ganolfan a fu'n gwirfoddoli yno dros yr haf, yn rhannu ei meddyliau am un digwyddiad yn ystod y cyfnod:

'Un dydd lau ym mis Awst roeddwn yn eistedd yn y lolfa yn Nhrefeca fel un o Ymddiriedolwyr y Ganolfan. Edrychais o gwmpas i weld pwy arall oedd yno. Daeth 15-20 o bobl ynghyd, gan gynnwys Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn Senedd Cymru; Jane Dodds, yr AS lleol; staff a chynrychiolwyr Cyngor Powys; Mair Jones, Rheolwr y Ganolfan; a dau o'r gwesteion o Wcráin. Daeth yn amlwg yn fuan o'r sgwrs ein bod ni i gyd yn ceisio gwneud ein gorau dros y rhai oedd wedi ffoi o'r rhyfel yn Wcráin, ac yn ceisio dechrau bywyd newydd yng Nghymru. Cawson nhw eu halltudio o'r man lle roedden nhw'n perthyn - pobl ar daith i fywyd newydd oedden nhw, os ydych chi eisiau delwedd Feiblaidd.

'Clywsom am y problemau cyffredin, sef sicrhau bod y dogfennau a'r gwaith papur gofynnol wedi'u cwblhau cyn gynted â phosibl a cheisio dod o hyd i gartrefi mwy addas a pharhaol. Byddai hyn yn rhoi mynediad i drafndiaeth a phosibiliadau gwaith, a gweld sut y gallai'r sgiliau a'r doniau yr oedd llawer ohonynt wedi dod gyda nhw ein helpu ni fel cenedl.



Llun: AdobeStock

'Wrth i ni ymuno â gweddill yr Wcraniaid am ginio yn yr ystafell fwyta, meddyliais sut roedd y rhoddion hyn o letygarwch, lle i fod ac amser i'w werthfawrogi, yn adlewyrchu'r hyn y mae Trefeca yn ei wneud orau. Gall ddarparu'r man hwnnw lle mae eglwysi a sefydliadau seciwlar, a phobl o wahanol ffydd a chenhedloedd, yn gallu eistedd i lawr gyda'i gilydd, gwrandao ar ei gilydd, rhannu brwydrau ei gilydd a dysgu gyda'i gilydd er mwyn gwneud y byd hwn yn lle gwell i'w holl bobl. Beth bynnag fydd dyfodol Trefeca, rwy'n gobethio ac yn gweddio y bydd yn parhau i fod y man cyfarfod hwnnw.'

Pan adawodd y gwestai olaf yn ystod mis Hydref, yr oedd Trefeca wedi bod yn lloches i 31 o bobl i gyd, sef 15 o deuluoedd.



"Canys buost yn noddfa i'r tlawd, yn noddfa i'r anghenus yn ei gyfyngder, yn lloches rhag y storm ac yn gysgod rhag y gwres. Oherwydd y mae anadl y rhai trahaus fel gwynt oer." (Eseia 25:4)

Cydnabuwyd ymdrechion pawb yng Ngholeg Trefeca a pharodrwydd EBC i gynorthwyo ar lefel uchaf y Llywodraeth, ac mae'n bleser gennym rannu gyda chi lythyr o ddiolch oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru.

Nan Powell-Davies (Ysg. Cyffredinol EBC)



Llun: AdobeStock



ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

9 Arwain y teulu a thystio teulu

Darllen: Genesis 12:4-9

Roeddwn yn cyfeirio'r wythnos ddiwethaf at y ffaith fod Abraham wedi ei alw gan yr Arglwydd i deithio, i fod yn bererin, ac yn yr adnodau heddiw fe welch ei fod wedi cyrraedd, ond heb gyrraedd hefyd. Fel y gwelwyd o'r adnodau cyfatebol yn Hebraeid 11:9-10, yn ymarferol, rhywbeth cymharol oedd cyrraedd i Abraham. Trwy ffydd yr ymfudodd i wlad yr addewid fel i wlad estron a thrigo mewn pebyll, fel y gwnaeth Isaac a Jacob, cyd-etifeddion yr un addewid. Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi.

Wedi dod i Ganaan (adn. 5), fe'i cawn yn teithio i Sichem (adn. 6), i Fethel (adn. 8) ac yn symud yn raddol i'r de (adn. 9). Yr wythnos nesaf cawn ei hanes yn teithio i lawr i'r Aifft am gyfnod cyn dychwelyd. Rwyf yn meddwl ei bod yn allweddol ein bod yn ei weld fel pererin yn hytrach na chrwydryn. Nid teithio'n ddigyfeiriad neu fynd ar grwydr y mae Abraham. I'r gwrthwyneb: er ei fod yn mynd hwnt ac yma, mae'n gwybod ble mae'n mynd yn y diwedd. Mae adn. 7 yn ei atgoffa o addewid Duw: 'I'th ddisgynyddion di y rhoddaf y wlad hon', a Hebraeid 10:10 yn ein hatgoffa am ei ddisgwyliad. Yn wir, y darn o dir a brynodd i gladdu Sarah oedd yr unig ddarn o'r wlad yr oedd yn berchen arno (pennod 23).

Yn sicr, fel pererinion, mae yna fydolwg pur wahanol yn perthyn i bobl Dduw. Fe gofiwch i Iesu ddweud bod pwy ydym yn golygu ein bod yn ymatal rhag casglu 'trysorau ar y ddaear', i ddiogelu bod ein trysor ni - ac oherwydd hynny ein calon ni - yn y lle iawn (Mathew 6:19-21). Ymhellach, mae bod yn bererin yn golygu na fyddwn fyth yn gyffyrddus yn y byd yma (2 Corinthiaid 5:2). Mae C. S. Lewis yn crynhoi hyn yn dda yn ei

lyfr *Mere Christianity*: 'Os wyf yn cael ynof ddyheadau na all y byd eu bodloni, yr unig ateb rhesymegol yw fy mod wedi fy nghreu ar gyfer byd arall.'

Rwyf hefyd yn cael fy atgoffa bod byw bywyd pererin yn golygu y bydd y byd yn ein gweld yn rhyfedd, yn destun gwawd, a hyd yn oed yn wrthrychau erledigaeth: 'Yn hyn o beth, y mae pobl yn ei gweld yn rhyfedd nad ydych chi'n dal i ruthro gyda hwy i'r un llifeiriant o afradlonedd; ac y maent yn eich cablu' (1 Pedr 4:4). Ac yn Ioan 15:18-19, fe ddywed Iesu: 'Os yw'r byd yn eich casáu chwi, fe wyddoch ei fod wedi fy nghasáu i o'ch blaen chwi. Pe baech yn perthyn i'r byd, byddai'r byd yn caru'r eiddo'i hun. Ond gan nad ydych yn perthyn i'r byd, oherwydd i mi eich dewis chwi allan o'r byd, y mae'r byd yn eich casáu chwi.'

Agwedd arall ar alwad Abraham, a thrwy hynny ein galwad ni, yw'r galwad i addoli. Trwy gydol oes Abraham, rydyn ni'n aml yn ei weld yn adeiladu allorau. Pan ddaw Abraham i Sichem, mae'r Arglwydd yn ymddangos iddo, ac mae'n adeiladu allor i Dduw (adn. 7). Ar ôl iddo symud eto, mae'n adeiladu allor arall yn y bryniau rhwng Bethel ac Ai (adn. 8). Roedd yr allor yn symbol o'i addoliad.

Ond nid yn unig yr oedd Abraham yn addolwr, yr oedd yn addolwr beiddgar. Yn adn. 6 fe glywn: 'tramwyodd Abram trwy'r tir hyd safle Sichem, at dderwen More'. Mae'r teitl 'More' yn golygu 'dysgu'. Hon oedd 'coeden fawr y ddisgeidiaeth'. Mae'n debygol iawn fod hon yn gysegrfa Ganaaneaidd lle byddai pobl yn ymgynnulli addoli rhyw dduwdod yn ogystal â gwranddo ar athrawon y duwdod. Mae cofnodion hanesyddol yn nodi bod gan y Canaaneaidd gysegrfeydd mewn llwyni o goed derw, ac efallai fod More yn un o'u canolfannau cwlit. Credai addolwyr duwiau ffrwythlondeb fod coed mawr yn dystiolaeth o rym i genhedlu oedd yn gysylltiedig â'r ardal; roedden

nhw'n meddwl y gallai rhywun ddod yn fwy ffrwythlon trwy addoli yno.

Felly, mae Abraham yn adeiladu allor i Dduw yn union wrth un o gysegrfannau mawr pobl Canaan. Nid addolwr ofnus, tawel, ydoedd. Roedd yn addolwr beiddgar. Yn Mathew 10:33 mae'r Iesu yn dweud: 'Ond pwy bynnag fydd yn fy ngwadu i gerbron eraill, byddaf finnau hefyd yn eu gwadu hwy gerbron fy Nhaf, yr hwn sydd yn y nefoedd.'

Ni allwn addoli Duw yn y dirgel. Fel Abraham, rhaid inni ei gyhoeddi a'i addoli ym mhob man yr awn. Cawsom ein creu i addoli Duw a'i fwynhau am byth. Llygrwyd y diben hwn yn ystod y Cwmp, ond mewn iachawdwriaeth adferir dyn i'r alwad fawr hon. Yn ôl 1 Pedr 2:5: 'yr ydych chwithau hefyd, fel meini bywiol, yn cael eich adeiladu yn dŷ ysbrydol, i fod yn offeiriadaeth sanctaidd, er mwyn offrymu aberthau ysbrydol, cymeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist'.

Roedd Abraham yn byw mewn byd llawn o eilunod. Fodd bynnag, fel rhan o'i alwad, roedd yn eofn yn addoli'r gwir a bywiol Dduw. Gallwn adeiladu ein hallorau lle bynnag yr awn. Fel Abraham, cawn ein galw i godi allor ar y gwastadedd yng nghanol y Canaaneaidd, ac addoli yn y bryniau pan fyddwn ar ein pennau ein hunain. Dylai popeth rydyn ni'n ei wneud fod yn addoli: 'Felly, beth bynnag a wnewch, prun ai bwyta, neu yfed, neu unrhyw beth arall, gwnewch bopeth er gogoniant Duw' (1 Corinthiaid 10:31).

1. Pa brofiadau sydd gennych o fyw bywyd pererin?
2. Pa ffyrdd ymarferol sydd i fyw bywyd o addoliad? Sut y medrwn wneud hynny - yn bersonol, o fewn teulu, ac yn ein heglwys?
3. Sut mae codi allor yn y gwaith neu yn ein bywyd hamdden?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol Sul, 27 Tachwedd am 7.30yh

Yr wythnos yma byddwn yn dathlu dechrau'r Adfent - cyfnod arbennig, cyfnod sanctaidd a chyfnod sy'n arwain at ddathlu genedigaeth Iesu Grist. Cawn gydganu a mwynhau rhai o'n carolau adnabyddus.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 27 Tachwedd, am 7:30yp a 4:30yp
Cymanfa Capel y Beirdd - Aled Davies

Sul, 27 Tachwedd, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Andrew Sully, Llandudno

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Dewch i ganu carolau a dathlu'r Nadolig Eglwys y Santes Fair, Dinbych Nos Sul, Rhagfyr 4ydd

Drysau ar agor am 5.30y.h.

Recordio am 6y.h.

Arweinydd: Leah Owen

Croeso i bawb

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

'C'mon Cymru!'

Ydi, mae'r lleoliad yn peri chwithdod. Oes, mae yna am fwy nag un rheswm gysgod dros y cyfan. A do, rydw innau wedi rhoi'r erthygl y dechreuais ei sgwennu am yr amhriodoldeb o gynnal y twrnaint yn Qatar o'r neilltu am y tro. Oherwydd, weithiau, ac mae heddiw'n un o'r dyddiau hynny, mae'n amser i lawenhau ac i fwynhau. Mae Cymru yng Nghwpan y Byd, ac mae gwlad gyfan yn dathlu'r ffaith. Ers wythnosau, crisialwyd y cyffro a'r edrych ymlaen mewn cân a thri gair, 'Yma o Hyd'. Gwych ac amheuthun fu gweld hyder newydd y genedl nid yn unig yn ei thîm pêl droed ond yn ei hanes a'i diwylliant a'i hiaith. A hyn oll yn ei galluogi i ddyheu gyda Harri Webb:



Cael yn ôl o borth marwolaeth
Gân a ffydd a bri yr heniaith;
Cael yn ôl yr hen dreftadaeth
A Chymru'n cychwyn ar ei hymdaith.

Beth bynnag a ddigwydd yn y tair gêm agoriadol mae breuddwyd oes miloedd o Gymry am weld ein tîm cenedlaethol ar brif lwyfan Cwpan y Byd wedi'i gwireddu. Ar drothwy'r twrnaint, breuddwydio rydym mai 'cychwyn ar ei hymdaith' fydd Cymru yn y gemau yn erbyn yr Unol Daleithiau ac Iran a Lloegr. Hir iawn fu'r aros, ac mor wych fyddai gweld Cymru yn camu trwy'r gemau grŵp i ran nesaf y gystadleuaeth.

Dywed Llyfr y Pregethwr wrthym fod yna dymor ac amser i bob dim:

Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef:
amser i eni, ac amser i farw,
amser i blannu, ac amser i ddiwreiddio'r hyn a blannwyd;
amser i ladd, ac amser i iacháu,
amser i dynnu i lawr, ac amser i adeiladu;
amser i wylo, ac amser i chwerthin,
amser i alaru, ac amser i ddawnsio;
amser i daflu cerrig, ac amser i'w casglu,
amser i gofleidio, ac amser i ymatal;
amser i geisio, ac amser i golli,
amser i gadw, ac amser i daflu ymaith;
amser i rwygo, ac amser i drwsio,
amser i dewi, ac amser i siarad;
amser i garu, ac amser i gasáu,
amser i ryfel, ac amser i heddwch

(Pregethwr 3:1-8)

Mae'r Pregethwr yn cydnabod yr ystod o brofiadau a theimpladau a ddaw i'n rhan: yr enillion a'r colledion i gyd. Mae'n deall yr hawddfyd a'r drygyd a wynebwn. Ac un peth gwerthfawr sydd ganddo i'w ddysgu i ni yw ei bod yn gyfreithlon i ni lawenhau a dathlu pan fo modd gwneud hynny, hyd yn oed yng nghanol treialon a dioddefiadau ac anghyfiawnderau. Beth bynnag y brwydrau a'r anawsterau, mae'r gallu i orffwyso ac i lawenhau ac i fwynhau wedi ei roi i ni. A thros yr wythnos a'r wythnosau nesaf gobeithio, dowch i ni fwynhau'r gwyllo a'r cefnogi. 'C'mon Cymru!'

John Pritchard

[o Gronyn, taflen wythnosol gofalaeth fro'r Llechen Las 20 Tachwedd, 2022]

Eglwys Cynulleidfaol Dwyieithog Penybont a Threfgarn Owen Sir Benfro

Gyda'r cyhoeddiad fod ein gweinidog y Parchg Geoffrey Eynon yn ymddeol fis Gorffennaf nesaf, wedi 46 mlynedd yn yr ofalaeth, rydym yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser.

Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys, neu grŵp o eglwys yn y cyffiniau, sydd â diddordeb mewn ystyried ymuno â'r ofalaeth i gysylltu â ni.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â:

Mrs Haulwen Warlow, Ysgrifennydd yr Ofalaeth 01437 563306
haulwen.warlow@btinternet.com

GAIR AM AIR – parhad

Mae Frost yn gorffen cerdd arall o'i eiddo 'The Lesson for Today' (1942) gyda'r geiriau: 'I would have written of me on my stone: I had a lover's quarrel with the world.'

Mae'r cymal 'a lover's quarrel with the world', yn dweud rhywbeth wrthym am ein hymateb fel Cristnogion i'r byd. Mae 'Stopping by Woods on a Snowy Evening' yn ddisgrifiad hyfryd o brydferthwch byd, a'r munudau euraid hynny lle cawn ymdeimlo â hyfrydwch bywyd. Ond y tu hwnt i brydferthwch byd a hyfrydwch bywyd, mae 'na fywyd a byd tra gwahanol: hagrwech tlodi a thrais; budreddi rhyfel a gormes. Fel Cristnogion, mae ein ffydd yn mynnu ein bod ni'n mynd i'r afael â'r pethau hyll hyn. Mae'r Cristion, fel ei Dduw yn caru'r byd; ond mae gan y Cristion 'a lover's quarrel with the world'. Er rhyfeddod a phrydferthwch y goedwig a'r eira a swewr llonyddwch *waldeinsamkeit* ... meddai'r bardd: 'I have promises to keep'. Mae'r bardd wedi blino ... 'miles to go before I sleep'. Mae Cristnogion weithiau'n blino ar y gwaith o newid y byd hwn, ond newid y byd sydd raid. Gwaith ffydd, mewn cariad yw newid y byd er gwell, felly daliwn ati felly, daliwn ati i ddal ati. '(We) have promises to keep./And miles to go before (we) sleep./And miles to go before (we) sleep.'

GWAHODD GWEINIDOG RHAN AMSER

**Eglwys Annibynnol Glandwr,
Cefnyfant, Hebron, Nebo Efailwen,
Llwynyrhrdd Tegryn, Sir Benfro.**

Y mae'r eglwys uchod yn gwahodd cesiadau am weinidog rhan amser.

Am fanylion pellach cysyllter a:

Bethan Hinde
Garth, Y Glôg
SA36 0ED.

Ffôn: 07920 018203 neu
e-bost: beth.hinde@gmail.com

Cyfeiriad newydd

Dyma gyfeiriad newydd Gwynfor Roberts, Ysgrifennydd Cyffredinol eglwys Ebeneser, Rhosmeirch: Llain Delyn, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7RZ.

Barn Annibynnol

Pêl-droed foesol?

Erbyn i'r golofn hon ymddangos yn *Y Tyst* bydd rowndiau terfynol y Cwpan Byd Pêl-droed yng ngwlad Qatar yn eu hanterth. Bydd biliynau o bobl o'r Ariannin i Zambia'n gwirioni ar bob cic. Ond bydd un cwestiwn moesol yn hofran o hyd uwchben y sbloet enfawr hon: a ddylai'r 32 o dimau fod yn chwarae yno o gwbl?



Llygredd

Affraid ailadrodd y rhestr o gyhuddiadau yn erbyn Qatar, y diffyg hawliau dynol, yr erlid milain ar bobl LGBTQ, y cannoedd o weithwyr o Dde Asia a fu farw wrth godi'r stadiymau. Fe dâl i ni gofio dwy agwedd arall hefyd. Yn gyntaf, y llygredd a'r iro llaw a helpodd sicrhau rhoddi'r twrnamaint i Qatar gan FIFA, corff rheoli pêl-droed y byd. Yn ail, y gwastraff anhygoel sydd ynghlwm wrth y £180 biliwn [yn ôl y BBC] a gostith i lwyfannu'r gystadleuaeth. Hwn yw'r Cwpan Byd

drutaf erioed, yn bennaf oherwydd y gost aruthrol o godi wyth stadiwm newydd sbon, stadiymau a fydd braidd yn cael eu defnyddio wedyn mewn gwlad lle nad yw gemau pwysicaf eu cynghrair bêl-droed yn denu mwy nag ychydig filoedd o wylwyr.

Er hynny, cred llawer un ar draws y byd Arabaidd taw hiliaeth wrth-Arabaidd sy'n cymell y protestio. Yn sicr, mae hawlgan y byd Arabaidd i gynnal Cwpan y Byd rywbryd, ond mae llawer gwell achos gan wledydd fel Algeria neu Foroco lle ceir traddodiad hir yn y gamp.

Gwelliannau?

Dadleua rhai, yn cynnwys y lleisiau Cymraeg a glywir o Doha ar Radio Cymru, fod Qatar wedi gwneud gwelliannau er lles eu gweithlu. Do, cyflwynwyd lleiafswm cyflog a gwaharddwyd gweithio awyr agored yng ngwres mwya'r prynhawn. Ond does o hyd ddim canolfan i dderbyn cwynion gweithwyr, ac mae gweithwyr yn dal yn glwm wrth eu cyflogwyr, heb hawl i adael eu swyddi, ac yn cwmpo o ben sgaffaldiau uchel.

Bellach, tu allan i'r gwledydd Arabaidd, tyfodd consensws byd-eang na ddylid bod wedi dyfarnu'r gystadleuaeth i Qatar. Y datganiad rhyfeddaf a glywais oedd un Sepp Blatter, cyn-lywydd FIFA, a fynnodd yn ddiweddar taw 'camgymeriad' oedd rhoi'r twrnamaint i Qatar. A hwnnw, yn wên o glust i glust, a wnaeth y cyhoeddiad yn 2010 taw Qatar fyddai'n cynnal y twrnamaint!

Bu FIFA'n gyfrwys iawn yn 2010 hefyd. Datganwyd ar yr un adeg leoliadau'r ddau dwrnamaint canlynol, sef Rwsia yn

2018 a Qatar yn 2022. Er gwaetha amheuan pobl am Qatar, roedd rhaid i'r byd ganolbwyntio ei sylw ar baratoadau ar gyfer Rwsia. Erbyn i 2018 fynd heibio roedd stadiymau Qatar wedi hanner eu codi ac roedd yn rhy hwyr gwneud dim mwy na lleisio annifyrrwch.

Rhagrith

Teg nodi bod nid ychydig o ragrith i'w aroglu yn y ddaidl hefyd. Mae gwledydd y Gorllewin yn ddigon parod i brynu olew a nwy gan Qatar a gwerthu arfau iddyn nhw. Mae cymdeithasau pêl-droed hefyd yn fodlon gadael i lywodraeth Qatar, trwy amrywiol bwyllgorau, brynu clybiau fel Manchester City a Paris Saint Germain yn Ffrainc. Amcan Qatar, wrth gwrs, yw defnyddio poblogrwydd pêl-droed er mwyn 'campolchi' enw'r wlad a'i gwneud yn lle derbyniol i fasnachu â hi.

Ddylai Cymru fod yno?

A'r cwestiwn moesol. A ddylai tîm Cymru fod yno? Wedi aros 64 mlynedd ers Cwpan Byd Sweden yn 1958, doedd dim rhithyn o debygrwydd y byddai Cymru yn cadw draw. Dim tîm arall chwaith. Heb amheuaeth, bydd y manteision i Gymru'n sylweddol, o ran hybu pêl-droed yma a chodi proffil a chyfleoedd Cymru ar draws y byd. Dyna achos pob gwlad arall hefyd. Er hynny, on'd yw pob gwlad sy'n cymryd rhan yn cydweithredu â'r anghyfiawnderau mawr yn Qatar? Mae sawl tîm yn mynnu dangos eu protest. Gwnaeth tîm Awstralia fideo i ddangos y sefyllfa yn Qatar. Mae llawer o'r timau, fel Cymru a Lloegr, yn defnyddio symbol enfys y gymuned LGBTQ yn eu logos neu ar fandiau braich. Does dim ddywyaith bod y byd cyfan bellach yn llawer mwy ymwybodol o gyflwr pethau yn Qatar nag y bydden nhw oni bai am Gwpan y Byd. I raddau, cafodd bwriadau llywodraeth Qatar eu gwyrddroi. Ydi hynny'n ddigon?

Cyfaddawd yw byw

Ystyriwn yr egwyddorion moesol ehangach. Rydym yn byw mewn byd amherffaith iawn. Drygioni ymhob man. Yn sicr, gwnawn ein gorau i wrthwynebu'r drwg a pheidio â'i hybu mewn unrhyw ffordd, ond mae osgoi cyfaddawdu yn llwyr yn amhosib. Byddai hynny fel cerdded trwy brynawn o law mân heb wlychu.

Byddwn yn prynu petrol oddi wrth gwmnïau ynni sy'n gwneud elw mawr wrth hyrwyddo newid hinsawdd. Archebu nwyddau trwy gwmnïau ar-lein sy'n osgoi talu trethi'n llawn. Prynu dillad o wledydd lle mae'r gweithwyr tecstilau'n ennill ceiniog a dimai dan amgylchiadau gwarthus.

A gwyllo chwaraeon mewn gwledydd fel Qatar. Tra bydd drygioni'n bod, cyfaddawd yw byw.

Troellog yw'r ffordd i'r Deyrnas. Ond ymlaen mae Canaan.

Robat Powell

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Capel Glynarthen, Ceredigion

Llawenydd o'r mwyaf oedd cael gwasanaeth Sacrament y Bedydd, sef bedydd Heledd Fflur Davies, ail ferch Llion ac Annwen Davies, Hendrefwyn, Beulah ar 24, Medi yng nghapel Glynarthen, dan lywyddiaeth gweinidog eglwys Glynarthen, gyda thaid Heledd, y Parchedig Gwyndaf Richards yn cael y fraint o fedyddio ei wyres fach. Rhian Evans, modryb Heledd, oedd yn gwasanaethu wrth yr organ ac a wnaeth y gacen fedydd. Croesawyd pawb i'r festri am luniaeth ar ôl y gwasanaeth. Roedd y cwbl yn fendithiol iawn.



Gwasanaeth bedydd Heledd Fflur Davies, Hendrefwyn, Beulah, Castellnewydd Emlyn.

O'r chwith i'r dde gwelir ei dwy fam fedydd, ei thad Llion (Heledd Fflur yn ei freichiau), ei mam Annwen, y Parchedig Carys Ann, gweinidog eglwys Glynarthen a thaid Heledd sef y Parchedig Gwyndaf Richards

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Sul Sbesial – Iluniau



Eciwmeniaeth

'Dau fyfyrwr ydan ni wrthi'n astudio,' meddai un o ganeuon Triawd y Coleg, a Merêd a Robin yn canu. Af i ddim ymlaen â gweddill y geiriau. Gwell fyddai aralleirio a dweud, 'Dau weinidog ydan ni wrthi'n torheulo.' A dyma i chi sefyllfa wir eciwmeniaidd – Rhys Llwyd, gweinidog Bedyddwyr ac Iwan Llewelyn, gweinidog Annibynwyr a Phresbyteriaid yn cael cysgod wal capel Presbyteriaidd capel Soar-y-mynydd yn ystod haf hirfelyn tesog 2022. Diolch am ysblander creadigaeth Duw a diolch am gyfeillgarwch.

I. Ll.



Capel dan ei sang mewn cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch Hope-Seilo ar fore Sul 16 Hydref. Gyda'r capel dan ei sang ac wedi'i addurno roedd hi'n wledd i'r glust ac i'r llygad. Cawsom gyfraniad dramatig gwych gan blant yr ysgol Sul yn seiliedig ar ddameg y deg gwahanglwyf, a rhai o'r plant yn gwisgo dilledyn llawn smotiau coch. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ddweud diolch drwy'r ddameg.



Tro criw o aelodau oedd hi wedyn i gyflwyno neges gyfoes ar lafar, ar gân a thrwy lun ar y sgrin, yn cynnwys cerddi o waith Meirion Evans a Hannah Roberts a chan Delyth Mai Nicholas ac Eric Jones (Gweddi Wcráin). Cyfeiriwyd at yr angen i ofalu am fyd Duw ac adnoddau'n dear. Er ein bod ni'n gresynu am y ffaith fod angen banciau bwyd, rhaid diolch i'r gwirfoddolwyr sy'n eu trefnu a diolch i bawb sy'n estyn cymorth i rai mewn angen ar draws y byd. Rydym yn ffodus o gael gweld a gwrando ar y criw talentog hwn yn rheolaidd.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau hael i'r banc bwyd, gan gynnwys rhoddion addas ar gyfer plant bach gan y Clwb Babanod.

Heledd Clarke

**CAPEL EBENEZER,
LLANGYBI,
CEREDIGION
1772-2022
YN DATHLU
DAUCANMLYNEDD
A HANNER**

Cynhelir gwasanaeth o ddathlu

Oedfa yn y capel ar
ddydd Mawrth 6 Rhagfyr
am 2.00 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Darperir te yn y festri ar ddiwedd
yr oedfa